# Deall Troseddau Casineb a Bregusrwydd yng Ngogledd Cymru

**Crynodeb am Ddigwyddiad Ar-lein rhwng 3.30pm a 5.30pm**
Dydd Llun 16 Hydref 2023 gyda:

**DIGWYDDIAD AR-LEIN** Crynodeb


SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU** A **THROSEDD** GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

**HEDDLU** GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES **POLICE**

VS VICTIM SUPPORT

CYDLYNIANT CYMUNEDOL GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU
COMMUNITY COHESION NORTH EAST WALES
wrexham wrecsam
Sir y Fflint Flintshire
sir ddinbych denbighshire
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

CYDLYNIANT CYMUNEDOL / *COMMUNITY COHESION*
Gogledd Orllewin Cymru *North-West Wales*
CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
CYNGOR GWYNEDD COUNCIL
CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL
Llywodraeth Cymru Welsh Government




WYTHNOS YMWYBYDDIAETH O DROSEDDAU CASINEB 2023 – GWEMINAR

# Cynnwys


Cyflwyniad 3

Pobl Ifanc a Throseddau Casineb PC Erin Hulley
Tîm Cyswllt Ysgolion Heddlu Gogledd Cymru 5

Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth – April Herzog 8

Cydlyniad Cymunedol yng Ngogledd Cymru 12

Canolfan Cymorth Casineb Cymru –
Cymorth Dioddefwyr 13

Cwestiynau, Atebion ac Esboniad Perthnasol 15

Cysylltiadau 21




# Cyflwyniad gan Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru


Andy Dunbobbin

Rôl y CHTh ydy bod yn llais y bobl o fewn plismona, gosod blaenoriaethau plismona ar gyfer Gogledd Cymru, ymgysylltu gyda phobl sy'n byw/gweithio yng Ngogledd Cymru a dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol am wasanaethau plismona sy'n cael eu cyflawni. Mae Ymdrin ac Atal Trosedd Casineb wedi'i osod fel blaenoriaeth o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

Nod digwyddiad Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb eleni ydy edrych ar fregusrwydd a throseddau casineb o fewn cymunedau Gogledd Cymru, ystyried sut i leihau dioddef, ac edrych ar sut i gynorthwyo pobl sy'n profi troseddau casineb.

Yn dilyn llwyddiant digwyddiad y llynedd a phwysigrwydd y pwnc, cynyddwyd y sesiwn eleni i 2 awr. Mewn agenda llawn dop a phryfoclyd, cafwyd cipolwg ar wasanaethau sy'n gweithio yng Ngogledd Cymru. Canolbwyntiwyd yn benodol ar

- Y materion sy'n codi ynghylch **pobl ifanc** fel dioddefwyr a throseddwyr posibl a'r cymorth a'r arweiniad sydd eu hangen.
- Mae'r gwaith sy'n digwydd mewn **ysgolion** ynghylch hyn. Rhoddodd PC Erin Hulley o dîm School Beat gyflwyniad ar waith tîm swyddogion heddlu ysgolion o ran troseddau casineb mewn ysgolion.
- Gwnaeth **Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth** cynnwys eu cyfraniad gan ysgolion.
- Tensiynau hysbys mewn cymunedau a throsedd i **Ganolfan Cymorth Casineb Cymru**
- Gwaith y **timau Cydlyniad Cymunedol** yng Ngogledd Cymru, yn enwedig o ran troseddau casineb yn erbyn pobl â nam gwybyddol / anabledd dysgu.


Mae'r Comisiynydd yn gweithio er mwyn cynorthwyo a chraffu ar Heddlu Gogledd Cymru ar ddarparu gwasanaethau plismona. Lansiwyd y Panel Dioddefwyr eleni. Panel pwrpasol wedi'i gynllunio er mwyn rhoi cyfle i ddioddefwyr roi adborth i'r heddlu a phartneriaid cyfiawnder troseddol ehangach am y gwasanaeth maent wedi'i dderbyn fel dioddefwyr troseddau. Nod y Panel ydy cael dealltwriaeth defnyddwyr y gwasanaeth o'r problemau a'r anawsterau fel y gellir eu lliniaru, eu diwygio ac, yn bwysig, eu gwella yn y dyfodol. Mae'r Comisiynydd yn gweithio hefo Heddlu Gogledd Cymru er mwyn sicrhau bod y system yn effeithiol wrth gael adborth gan ddioddefwyr troseddau casineb am eu profiadau. Bydd cynnwys dioddefwyr troseddau casineb yn y Panel Dioddefwyr yn dod yn offeryn effeithiol ar gyfer craffu a gwella gwasanaethau.

Mae'r Comisiynydd yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd er mwyn cynorthwyo adrodd am droseddau casineb. 2023 oedd y flwyddyn gyntaf i nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt ers 7 mlynedd ostwng. Er y gallai hyn ymddangos yn gadarnhaol, gan nad yw troseddau casineb yn cael eu hadrodd yn ddigonol, mae'r Comisiynydd wedi parhau hefo ymgyrchoedd a chodi ymwybyddiaeth. Mae hyn er mwyn tynnu sylw at beth ydy troseddau casineb, targedu'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio a rhannu gwybodaeth ar sut i adrodd.

Fel rhan o'r rôl lywodraethu a chraffu, mae'r Comisiynydd yn monitro data'r Heddlu er mwyn deall math a natur newidiol troseddau casineb. Mae bodlonrwydd dioddefwyr hefo gwasanaethau plismona hefyd yn cael ei fonitro. Pan fo un aelod o gymuned yn anhapus hefo'r gwasanaeth plismona y maent wedi'i dderbyn, gall hyn arwain at anfodlonrwydd gan y gymuned ehangach. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cymryd camau yn 2023 er mwyn gwella boddhad. Maent wedi cyflwyno 20 o hyrwyddwyr troseddau casineb SCCH er mwyn gwella gwybodaeth arbenigol mewn plismona lleol. Mae swyddog amrywiaeth ychwanegol yr heddlu wedi cael ei recriwtio yn Rhanbarth y Gorllewin. Mae cynlluniau ar y gweill er mwyn sefydlu grwpiau cynghori cymunedol mewn ardaloedd lleol. Yn ogystal, mae canllawiau rheoli troseddau a gwybodaeth trosedd casineb ychwanegol ar gael i swyddogion mewn plismona lleol.

Mae monitro data a lefelau bodlonrwydd yn sicrhau fod darparu gwasanaeth yn cael ei graffu o hyd. Gall mesurau gael eu cymryd lle mae pethau wedi mynd yn anghywir er mwyn eu hunioni ac adfer hyder.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn hynod bwysig. Ni all grŵp neu sefydliad penodol fynd i'r afael â throseddau casineb yn unig. Mae sefydliadau a chymunedau, y sector cyhoeddus ac unigolion preifat yn cydweithio yn hanfodol i fynd i'r afael â throseddau casineb yn effeithiol yng Ngogledd Cymru.




# Pobl Ifanc a Throseddau Casineb


## PC Erin Hulley Tîm Cyswllt Ysgolion Heddlu Gogledd Cymru

Rhoddodd PC Erin Hulley o Dîm Swyddogion Ysgolion Heddlu Gogledd Cymru gyflwyniad ar waith SchoolBeat yng Ngogledd Cymru. Mae PC Hulley yn Swyddog Heddlu Ysgol sy'n ymweld â 29 o ysgolion yn ardal De Wrecsam Wledig.

Gellir dod o hyd i sleidiau llawn PC Hulley **yma**. Mae crynodeb o'i chyflwyniad isod.


- Rolau a chyfrifoldebau Swyddog Heddlu Ysgol.
- Mae gan HGC gyfanswm o 16 o Swyddogion Ysgol, sy'n cwmpasu ardal Gogledd Cymru.
- Mae Swyddogion Heddlu Ysgolion yn cynnal cyflwyniadau mewn gwasanaethau boreol ar Droseddau Casineb er mwyn addysgu disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Mae pobl ifanc yn cael eu hannog i FEDDWL cyn iddyn nhw siarad a meddwl am enghreifftiau o'r hyn sy'n ein gwneud ni i gyd yn debyg ac yn wahanol.
- Mae disgyblion yn cael eu hannog i nodi a thrafod yr hyn sy'n ein gwneud yn debyg ac yn wahanol, ac ni all 'tynnu coes' fod yn esgus dros ddefnyddio iaith hiliol.
- Mae'r cyflwyniad yn egluro diffiniadau Troseddau Casineb, enghreifftiau o Droseddau Casineb a'r gyfraith.
- Mae cyflwyniadau Troseddau Casineb mewn gwasanaethau boreol hefyd yn ymdrin ag eithafiaeth a radicaleiddio ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd. Rhoddir sylw ar wahaniaethu, sut y gall credoau droi'n gamau gweithredu a sut i adrodd unrhyw bryderon.
- Mae Swyddogion Ysgolion hefyd yn cynnal gwers ar Droseddau Casineb sy'n canolbwyntio ar Eithafiaeth a Radicaleiddio, ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd. Mae sylw'n cael ei dalu i ddiffiniadau Troseddau Casineb a nodi ymddygiadau eithafol ymhlith cyfoedion.
- Darperir gwersi Troseddau Casineb hefyd ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd. Mae'r wers hon yn canolbwyntio ar sefyllfaoedd bywyd go iawn, gan adael i'r disgyblion ddeall yr effeithiau y mae Troseddau Casineb yn eu cael ar ddioddefwyr.

- Rhwng mis Medi 2022 a mis Gorffennaf 2023 darparwyd cyfanswm o 60 sesiwn yn ymwneud â Throseddau Casineb gan Dîm Swyddogion Heddlu Ysgolion yng Ngogledd Cymru, gan gyrraedd cyfanswm o 4569 o ddisgyblion.
- Nid ydy pob digwyddiad sy'n ymwneud â phlant yn cael eu neilltuo i Swyddogion Heddlu Ysgolion i'w hymchwilio.
- Bydd Swyddog Ysgol ond yn cynorthwyo hefo ymchwiliad os yw'n bodloni'r meini prawf yn y siart lif isod.




- Os ystyrir bod digwyddiad yn un 'difrifol' yna ni all Swyddog Heddlu Ysgol ymchwilio.
- Ceir rhestr o 'ddigwyddiadau difrifol' hefo'r sleidiau dolen.

- Gofynnir yn aml i Swyddogion Heddlu Ysgolion gwrdd â disgyblion er mwyn trafod canlyniadau cyfreithiol eu hymddygiad pan geir digwyddiadau yn ystod oriau ysgol.
- Mae Swyddogion Ysgol hefyd wedi'u hyfforddi mewn Cyfiawnder Adferol, er mwyn cynorthwyo gydag adroddiadau o fwlio.
- Rôl Swyddog Heddlu Ysgol ydy addysgu a datrys, ac atal unigolyn ifanc rhag cael cofnod troseddol. Felly, pan fydd Swyddog Ysgol yn siarad â disgybl, nid yw eu manylion personol yn cael eu hychwanegu at system yr Heddlu ond cofnodir manylion eu hysgol, gr p blwyddyn a'u rhywedd trwy system arall at ddibenion ymchwil yn unig.
- Cesglir gwybodaeth am nifer y digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chasineb a gafodd eu hymchwilio gan Swyddogion Heddlu Ysgolion yng Ngogledd Cymru.
- Mae Swyddogion Heddlu Ysgol yn cefnogi wythnosau ymwybyddiaeth drwy gydol y flwyddyn drwy gyflwyno gwersi a gwasanaethau boreol i ddisgyblion.
- Bob blwyddyn, mae Swyddogion Heddlu Ysgolion yn cefnogi ymgyrch 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth' er mwyn codi ymwybyddiaeth am Droseddau Casineb.






## Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth – April Herzog

Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth ydy elusen addysg gwrth-hiliaeth fwyaf y DU.

Mae ein gwaith yn cynnwys:

- **Gwaith gwrth-hiliaeth** hefo plant a phobl ifanc
- **Hyfforddiant gwrth-hiliaeth** ar gyfer addysgwyr ac oedolion eraill, gan gynnwys Hyfforddiant Athrawon a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon sy'n cael ei gynnal yn y mwyafrif o brifysgolion yng Nghymru.
- **Mentrau codi ymwybyddiaeth**
- Creu **adnoddau addysgiadol:**
  - gan gynnwys Pecyn Addysg Gwrth-hiliaeth ar thema Cwpan y Byd
  - Pecyn Addysg Gwrth-hiliaeth ar thema Windrush
  - Pecyn Addysg ar y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd (ar y gweill!)
  - Ein llwyfan 'Lleisiau' – fideos byr a chlir gan bobl sydd hefo profiad byw o hiliaeth, neu sydd hefo profiad ym maes gwrth-hiliaeth: https://voices.theredcard.org/
  - A'n Canolfan Addysg AM DDIM. (Hefo amrywiaeth o gynlluniau gwersi ar thema gwrth-hiliaeth ar ein gwefan. Gall athrawon gofrestru AM DDIM - https://theredcardhub.org/)
- **Lobïo ac ymchwil.**

Mae ein gweithdai ar gyfer ysgolion (oedran cynradd ac uwchradd) yn codi ymwybyddiaeth am broblem hiliaeth mewn cymdeithas (gweler y sleidiau am ragor o fanylion).

## Prosiect Arweinwyr Nawr

Mae ein prosiect Arweinwyr Nawr yn cynnwys gwaith tymor hir hefo ysgolion uwchradd yn ystod blwyddyn academaidd. Cafodd ei arbrofi hefo 5 ysgol ar draws Gogledd Cymru llynedd, ac ar hyn o bryd rydym yn gweithio hefo 4 ysgol yn Sir y Fflint yn y flwyddyn academaidd hon. Amcanion y prosiect hwn ydy:




- Ysbrydoli pobl ifanc i fynd ati a bod yn wrth-hiliol yn eu cymunedau eu hunain.
- Creu rhwydwaith hunangynhaliol o ymgyrchwyr gwrth-hiliaeth.
- Galluogi sgyrsiau tymor hir parhaus am hiliaeth a gwrth-hiliaeth.
- Galluogi pobl ifanc deimlo’n hyderus wrth herio hiliaeth yn eu mannau eu hunain
- Casglu gwybodaeth am yr hyn y mae pobl ifanc ei eisiau/angen gennym ni a chael eu harwain gan ddisgyblion
- Rhoi llais i ddisgyblion sy’n cael ei glywed gan uwch arweinwyr ysgolion

Y grŵp targed ydy pobl ifanc Blwyddyn 9 i fyny, gan ganolbwyntio ar ddisgyblion chweched dosbarth, mewn ysgolion sydd wedi cofnodi digwyddiadau hiliol neu y mae staff/disgyblion wedi gofyn am gymorth ynddynt. (Neu ysgolion lle mae’r Timau Ysgolion Iach neu Swyddogion Cyswllt yr Heddlu wedi nodi angen.) Y rhesymeg ydy bod yr ysgolion hyn yn cyflwyno actorion brwdfrydig a fydd yn cyfrannu i’r rhaglen ac yn gweithio er mwyn gwneud newid.

## Diwrnod Gwisgo Coch




Dyma ein menter codi ymwybyddiaeth a chodi arian blynyddol bob mis Hydref, lle mae ysgolion, busnesau ac unigolion yn cofrestru er mwyn ymrwymo codi ymwybyddiaeth am hiliaeth a gwrth-hiliaeth. Eleni, buom yn gweithio hefo gr p ffocws o ddisgyblion o Ysgol y Creuddyn (Conwy) er mwyn datblygu gwasanaeth rhithiol i'w rannu hefo'r holl ysgolion wnaeth gofrestru. Cafodd y gwasanaeth boreol ei gyflwyno'n bennaf gan ddisgyblion o Ysgol y Creuddyn, ynghyd â chyflwynwyr ifanc o Ysgol Uwchradd Bodedern (Ynys Môn), Ysgol Eirias (Bae Colwyn) ac Ysgol Pen y Bryn (ysgol gynradd o Fae Colwyn).

Mae'r gwasanaeth boreol hwn ar gael i'w weld yma: https://www.youtube.com/watch?v=Ab1WvR9Min4&t=4s

## Cystadleuaeth Greadigol


Mae cystadleuaeth Greadigol Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn cynnig cyfle unigryw o ddysgu trawsgwricwlaidd am groesawu gwrth-hiliaeth o fewn eich ysgol a Chymru fel cymuned ehangach mewn ffordd hwyliog a chreadigol.

Rhennir y gystadleuaeth yn chwe chategori sy'n cyd-fynd â'r 6 Maes Dysgu yng Nghwricwlwm newydd Cymru. Mae gan bob categori gystadlaethau Cynradd ac Uwchradd a bydd disgyblion o bob oed a gallu yn gallu cymryd rhan mewn o leiaf un o'r heriau

Dylai cynigion fod trwy ysgolion y disgyblion. Y dyddiad cau ar gyfer cynigion ydy dydd Llun 4 Mawrth hefo'r seremoni wobrwyo yn cael ei chynnal ar ddydd Iau 25 Ebrill.
Ceir mwy o wybodaeth yma:
https://www.theredcard.org/training-and-workshops/school-competitions/

**Am unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag April Herzog (Gweithiwr Addysg Gogledd Cymru Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth):**

**april@theredcardwales.org**



## Cydlyniad Cymunedol yng Ngogledd Cymru

Mae Timau Cydlyniad Cymunedol Gogledd Ddwyrain a Gogledd Orllewin Cymru yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo cymunedau amrywiol y prin y  clywir amdanynt ar draws chwe sir Gogledd Cymru.

Fel rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb 2023, canolbwyntiodd y ddau Dîm Cydlyniad Cymunedol ar werth prosiectau cydweithredol a oedd yn creu mwy o allu cymunedol (ceir enghreifftiau isod). Fe wnaethant roi trosolwg o'r canlyniadau a fwriadwyd, fframweithiau deddfwriaethol a pholisi, strwythurau cyflawni lleol, gweithgarwch gan gynnwys penawdau thematig Cynllun Cydlyniad Llywodraeth Cymru. Roedd y cyflwyniadau'n cynnwys esboniadau ar sut roedd pob tîm yn rhagweithiol wrth helpu codi ymwybyddiaeth am themâu allweddol a amlinellir yn Nyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Roedd y sesiwn yn gyfle da i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau rhanbarthol a sirol blynyddol, sut y gweinyddwyd grantiau bach hefo enghreifftiau o brosiectau a ariennir fel arfer, ond hefyd trosolwg o fonitro tensiwn, prosesau adrodd am droseddau casineb a chyfleoedd hyfforddi arbenigol.

**Hyb Amlddiwylliannol Gogledd Ddwyrain Cymru** - Llwyddodd Tîm Cydlyniad Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru gael £250,000 dros 2.5 mlynedd drwy Gronfeydd Treftadaeth, Diwylliant a Chwaraeon Cymru Wrth-hiliol. Roedd hynny er mwyn cynorthwyo datblygiad Hyb Amlddiwylliannol y Gogledd Ddwyrain mewn partneriaeth hefo Cyngor Hil Cymru a Thŷ Pawb. Mae'r prosiect yn parhau mynd o nerth i nerth hefo dros 22 o grwpiau cymunedol Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael cymorth hyd yma. Mae pob un ohonynt yn gallu cydweithio hefo'r Tîm Cydlyniad Cymunedol a phartneriaid ehangach er mwyn codi pryderon o ran troseddau casineb.

**Cronfa Strydoedd Diogelach 4 a 5** - Mae Cydlyniad Cymunedol yn cynorthwyo gweithredu prosiectau Strydoedd Diogelach 4 a 5 mewn partneriaeth hefo HGC, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir y Fflint a rhanddeiliaid allweddol ehangach. Mae'r ddarpariaeth wedi canolbwyntio ar weithredu dull ataliol o ymdrin â'r cynnydd a nodwyd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol ieuenctid a throseddau casineb. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys prosiectau sgwrs gymunedol o dan arweiniad ysgolion a chymunedau, hefo'r Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid a Groundwork Gogledd Cymru yn bartner darparu allweddol.

**Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb Mencap Môn** - Cydweithio rhwng Tîm Cydlyniad Cymunedol Gogledd-orllewin Cymru a MENCAP Llangefni, Heddlu Gogledd Cymru (tîm amrywiaeth) a Chymorth Dioddefwyr er mwyn trefnu sesiwn codi ymwybyddiaeth. Roedd hyn er mwyn tynnu sylw at fathau amrywiol o droseddau casineb (yn enwedig yn gysylltiedig ag anabledd) a'r ffordd orau o adrodd am ddigwyddiadau – gan drosglwyddo astudiaethau achos dienw. Trefnwyd y digwyddiad yn agos at wythnos ymwybyddiaeth troseddau casineb mewn lleoliad lleol, a thrafodwyd gwybodaeth am y mathau o ddigwyddiadau Troseddau Casineb sy'n digwydd yn yr ardal a'r hyn yr oedd aelodau MENCAP wedi'i brofi yn ystod y tair blynedd diwethaf.

**Podlediad Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb** - Sesiwn holi ac ateb wedi'i recordio ymlaen llaw gyda mewnbwn o wahanol rannau o Gymru e.e. Darlledwyd cydlyniad cymunedol, heddlu, Cymorth Dioddefwyr ar orsaf radio gymunedol leol (MônFM) er mwyn egluro'r diffiniad o Droseddau Casineb, y ffordd orau o adrodd digwyddiadau a'r hyn oedd y prosesau cymorth dilynol.

Cafodd y podlediad hefyd ei gylchredeg i holl Orsafoedd Radio Cymunedol Cymru a'i roi ar wefannau strategol.


## Canolfan Cymorth Casineb Cymru – Cymorth Dioddefwyr

Mae Canolfan Cymorth Casineb Cymru yn cael ei darparu gan Gymorth Dioddefwyr ac fe'i hariannir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaeth

- Yn wasanaeth cenedlaethol, sy'n cwmpasu Cymru gyfan; gwasanaeth cenedlaethol unigryw yn y Deyrnas Unedig
- Yn gallu cynnig cymorth annibynnol a chyfrinachol
- Cyflwynir gan dîm o weithwyr achos, Swyddogion Ymyrraeth Gynnar a Brysbennu a Swyddogion Hyfforddi ac Ymgysylltu – pob un yn gweithio er mwyn cynorthwyo dioddefwyr troseddau casineb a llosgiadau. Boed eu bod yn oedolion, plant, teuluoedd cyfan, tystion neu gymunedau y mae casineb yng Nghymru yn effeithio arnynt. Gall y gwasanaeth gynorthwyo plant a phobl ifanc yn annibynnol o 13+ oed, neu drwy riant/gofalwr ar unrhyw oedran.
- Mae'n cynnig hyfforddiant am ddim mewn cymunedau, gan gynnwys ysgolion, llywodraethwyr ysgol a'r heddlu
- Mae Gweithiwr Achos a Swyddog Hyfforddi ac Ymgysylltu pwrpasol wedi'i leoli yng Ngogledd Cymru.

Nid ydy hi'n glir bob amser yn glir pam fod yr ystadegau troseddau casineb yn newid yn y ffordd maen nhw'n gwneud, ond mae gan Gymru ei chyfraddau ei hun, ac mae Gogledd Cymru ei hun hefyd yn mynd yn groes i'r patrwm; Mae gogledd Cymru wedi gweld cwymp o tua 11% yng Nghymru gyfan.

Gallai'r rhesymau dros newidiadau mewn ystadegau gael eu gwella wrth i heddlu gofnodi, gostyngiadau mewn achosion, neu gynnydd mewn diffyg hysbysu. Mae gennym ein heriau unigryw ein hunain yng Nghymru.



Yn 2021, cynhaliodd Cymorth Dioddefwyr ymchwil hefo pobl ifanc ledled Cymru er mwyn edrych ar eu profiadau o gasineb. Mae’r cipolwg o’r ymchwil yn ddefnyddiol i unrhyw un sy’n gweithio hefo plant a phobl ifanc:

- Roedd y rhan fwyaf o’r bobl ifanc y siaradwyd hefo nhw wedi cael eu trin yn annheg yn yr ysgol yn hytrach nag yn eu cymunedau.
- Nododd plant crefyddol a rhai o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a’r rhai a nododd eu bod yn LHDT ganran uwch o driniaeth annheg.
- Cafodd annhegwch oherwydd troseddau ac achosion casineb effaith ddwys a niweidiol ar fywydau plant a phobl ifanc.
- Roedd plant a phobl ifanc wedi clywed am drosedd casineb, ond roedd yr atebion yn gymysg o ran ei darddiad.  Roedd rhai wedi dysgu am gasineb yn yr ysgol NEU erioed wedi cael sgwrs hefo oedolyn amdano.
- Mae plant a phobl ifanc yn fwyaf tebygol o estyn allan at oedolyn y mae ganddynt berthynas hefo nhw eisoes.
- Nid oedd lefel bryderus o blant a phobl ifanc wedi datgelu’r casineb yr oeddent wedi’i brofi i unrhyw un.
- Ymddiriedaeth isel yn yr heddlu o du plant a phobl ifanc.
- Roedd yn well gan rai plant a phobl ifanc ddibynnu ar eu hunain wrth wella. Nododd rhai plant a phobl ifanc fod ganddynt ofn dial neu ofni y byddai’r aflonyddu yn gwaethygu. Normaleiddio – roedd dod i arfer hefo casineb, neu gredu na fyddai unrhyw beth yn newid yn effeithio ar allu pobl ifanc i gael gafael ar gymorth priodol.





Er mwyn gweld yr adroddiad llawn:

English: Its-soul-destroying_Final-English.pdf (victimsupport.org.uk)

Welsh: Mae’n torri calon (victimsupport.org.uk)

Er mwyn cysylltu hefo Canolfan Cymorth Casineb Cymru: **www.reporthate.victimsupport.org.uk**

# Cwestiynau, Atebion ac Esboniad Perthnasol



Cwestiynau ac esboniad a dderbyniwyd ar y diwrnod ynghyd â sylwadau / atebion gan y sefydliadau oedd yn cyflwyno.

Pan ofynnwyd cwestiynau o'r un natur/thema, rhoddir un ateb.

**A fydd hyfforddiant pellach hefyd ar gael i swyddogion ar yr hyn ydy troseddau casineb a sut maen nhw'n gwybod sut i ymchwilio i'r mater yn iawn ac yn drylwyr? Mae'n ymddangos bod pwyslais cryf ar y dioddefwyr/goroeswyr a'r hyn y mae angen iddyn nhw ei wneud, ond yn aml mae problemau hefo swyddogion hefyd.**

Mae pecynnau hyfforddi troseddau casineb pwrpasol yn cael eu dosbarthu i aelodau staff. Mae'r Heddlu hefyd yn dibynnu ar arbenigedd y Swyddogion Amrywiaeth er mwyn cynorthwyo timau plismona lleol reoli troseddau casineb. Mae hyrwyddwyr troseddau casineb hefyd wedi'u cyflwyno o fewn yr Heddlu er mwyn ychwanegu haen ychwanegol o arbenigedd a gwybodaeth wrth ymchwilio i droseddau casineb a chynorthwyo dioddefwyr.

Mae Canolfan Gymorth Casineb Cymru yn gweithio'n agos hefo Heddlu Gogledd Cymru er mwyn rhannu profiadau dioddefwyr o droseddau casineb ac achosion, a helpu swyddogion helpu dioddefwyr mewn ffordd sy'n seiliedig ar drawma sy'n cynnal eu hawliau o fewn y Cod Ymarfer Dioddefwyr.

**Pam fod angen i swyddogion heddlu fynd mewn i ysgolion i gyflwyno deunydd a ddylai fod yn gyfarwydd eisoes i bob athro? A ydy eich presenoldeb chi yn yr ysgol yn cynrychioli methiant hyfforddiant athrawon a/neu ymwybyddiaeth athrawon o faterion cydraddoldeb?**

Mae'n bwysig bod swyddogion cyswllt ysgolion yn gallu cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth troseddau casineb mewn ysgolion. Mae hyn er mwyn sicrhau dealltwriaeth disgyblion o'r hyn sy'n gyfystyr â throseddau casineb a sut y bydd yn cael ei drin yn y broses cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn ategu addysg fugeiliol bresennol mewn ysgolion sy'n delio hefo materion cymdeithasol amrywiol gan gynnwys bwlio, cyffuriau, cysylltiadau ac ati.

# Hyfforddiant Athrawon

**Mae gen i ferch sy'n mynd i'r ysgol ac mae'n cael ei bwlio am fod yn wahanol. Ond y brif broblem ydy, fel dwi wedi nodi mewn cyfarfodydd blaenorol, nad ydy athrawon yn ymwybodol sut i adnabod casineb... neu maen nhw'n rhy ofnus i gamu mewn neu riportio. Dylai athrawon fynd i hyfforddiant ar gasineb.**

**Mae fy merch i'n cael ei bwlio yn ei hysgol uwchradd ac felly hefyd ei ffrindiau am fod yn wahanol. Dwi wedi nodi mewn cyfarfodydd blaenorol hefo Heddlu Gogledd Cymru nad ydy athrawon yn ymwybodol o adnabod neu riportio casineb neu fwlio am fod yn wahanol. Mi fuaswn i'n hoffi i athrawon fynychu hyfforddiant troseddau casineb.**

**Byddai'n syniad arloesol defnyddio diwrnod hyfforddi staff ar gyfer hyfforddi athrawon am droseddau casineb.**

**Byddai'n dda cynnal diwrnod hyfforddi athrawon ddiwedd hanner tymor mis Hydref ar y dydd Llun canlynol. Hyfforddiant athrawon – dim plant ysgol.**

**Dylai athrawon fod yn gwbl gyfarwydd hefo Deddf 2010 a materion diogelu. Mae'n fy mhoeni i y gallent nhw is-gontractio (rhyw fath) materion troseddau casineb i'r heddlu. Bellach mae ganddyn nhw Gynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliaeth i ddelio hefo fo, a ddylai gwmpasu'r holl faterion y mae'n rhaid i chi fynd i'r afael â nhw. Os byddan nhw'n ei adael i chi, efallai na fyddan nhw (neu rai ohonyn nhw) byth yn symud ymlaen.**

*Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Gall Canolfan Gymorth Casineb Cymru ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth troseddau casineb o fewn ysgolion i staff, llywodraethwyr a phlant h n. Mae hwn ar gael ar sail optio mewn, ac mae ysgolion yn cael eu hannog i gysylltu â'r gwasanaeth ar hate.crimewales@victimsupport.org.uk er mwyn trafod y gwasanaeth sydd ar gael. Mae ysgolion sy'n dymuno datblygu eu dealltwriaeth a'u hymrwymiad nhw i ddelio hefo troseddau casineb ymhellach hefyd yn gallu cofrestru ar gyfer y Siarter Troseddau Casineb a gweithio tuag at y Siarter Troseddau Casineb.

Bydd yr awydd i addysgu staff ar fod yn fwy addysgedig am droseddau casineb a bwlio ynghylch y nodweddion gwarchodedig yn cael ei rannu hefo partneriaid mewn Addysg.

**Mae troseddau casineb traws yn parhau i gynyddu. Dwi'n pryderu am y diffyg ffocws ar Ymchwilio a Darganfod "Pam mae pobl yn cyflawni Troseddau Casineb"? Ai anwybodaeth ydy o? Diffyg cyswllt cymdeithasol hefo cymunedau lleiafrifol? Rhagfarn a phwysau cymunedol a theuluol, ymosodiadau'r wasg a'r cyfryngau ar y gymuned, a Llywodraeth San Steffan yn gyson yn difrïo pobl LHD a phobl Draws yn benodol? Digwyddiadau gwleidyddol / terfysgol? Dylen ni fod yn ceisio darganfod pam mae trosedd casineb yn cael ei chyflawni a sut i'w atal rhag cychwyn. Mae addysg yn lle da i ddechrau, ond beth am y tu allan i amgylchfyd yr ysgol?**

Mae'r rheswm mae troseddau ac achosion o gasineb yn cael eu cyflawni yn faes cymhleth. Fel gwasanaeth arbenigol, mae Canolfan Gymorth Casineb Cymru yn aml yn cynnal digwyddiadau rhithiol sy'n ceisio archwilio'r pwnc hwn, i rannu gwybodaeth a mewnwelediad ar sut mae casineb yn digwydd, achosion a dylanwadau, gan dorri ar draws y cylch niwed a sut i greu gwell canlyniadau i ddioddefwyr. E-bostiwch hate.crimewales@victimsupport a gofyn am gael eich ychwanegu at y rhestr bostio er mwyn derbyn gwybodaeth am ein digwyddiadau yn y dyfodol.

**A oes unrhyw wersi Troseddau Casineb Anabledd yn arbennig?**

**O edrych ar wersi ysgol Elin – oes yna ddeunydd gwersi gwahanol ar gyfer Ysgolion Arbenigol?**

Nid ydy'r gwersi yn cael eu gwahanu gan nodwedd warchodedig. Fodd bynnag, mae'r rhaglen ysgolion yn cynnwys mewnbwn troseddau casineb cyffredinol y gellir ei deilwra i anghenion unigol yr ysgol a'i disgyblion. Gall hyn fod yn seiliedig ar oedran, lleoliad, nodweddion gwarchodedig ac ati.

Mae mewnbynnau hefyd wedi'u teilwra i broblemau a allai fod wedi digwydd neu sy'n gyffredin mewn ysgol benodol.

**Sut oedd nifer yr achosion o ysgolion mor uchel ar gyfer 2020 pan oedd plant gartref am y rhan fwyaf o'r flwyddyn oherwydd cyfyngiadau Covid?**

Ar y cyfan, roedd cynnydd o 20% yn yr adroddiadau am droseddau casineb yn 2020. Roedd adroddiadau'n cynnwys cwynion am gasineb ar-lein a oedd yn llawer uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol.

**Sut mae'r ffigyrau'n cymharu â rhannau eraill o'r DU? A fu gostyngiad?**

Roedd cynnydd cyffredinol mewn adroddiadau troseddau casineb yn ystod cyfnod pandemig Covid (2020 – 2022). Mae lefelau riportio troseddau casineb bellach yn dychwelyd i lefelau cyn y pandemig. Mae'r ffigyrau riportio troseddau casineb yn gyffredinol ar gyfer Gogledd Cymru yn cyd-fynd â phatrymau riportio ar draws y DU.

**O'm profiad i ar ôl siarad hefo dioddefwyr, nid ymddiried ydy'r broblem. Mae'n fwy ynghylch na ellir gwneud dim. Does dim digon o dystiolaeth er mwyn profi eu bod yn ddioddefwyr a dim digon o dystiolaeth i erlyn troseddwyr. Mae dioddefwyr yn rhoi'r ffidil yn y to!**

**Dwi wedi siarad hefo dioddefwyr casineb, ac mae'n ymddangos nad ydy o'n ymwneud hefo ymddiriedaeth yn yr Heddlu, ond yn fwy am ddiffyg tystiolaeth er mwyn helpu eu hachos. Mae dioddefwyr yn rhoi'r ffidil yn y to, yn enwedig pan fydd angen digon o dystiolaeth arnoch er mwyn i droseddwyr gael eu dyfarnu'n euog. Unrhyw ffordd y gall hyn newid?**

Mae'r uchod yn bwyntiau dilys, a derbynnir na fydd pob ymchwiliad troseddau casineb yn llwyddiannus. Mae'n bwysig bod yr heddlu'n gweithio hefo dioddefwyr i'w cynorthwyo nhw drwy'r broses riportio/cofnodi ar gyfer troseddau casineb. Mae angen i achosion lle mae troseddwyr wedi cael eu herlyn drwy'r broses cyfiawnder troseddol gael eu hyrwyddo gan asiantaethau a'u defnyddio fel offeryn er mwyn annog rhagor o adroddiadau. Mae'r Heddlu a Chymorth Dioddefwyr yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn cynorthwyo dioddefwyr drwy'r broses hyd yn oed pan fo achosion yn aflwyddiannus. Gall heddluoedd hefyd ddefnyddio grymoedd ynghylch aflonyddu er mwyn dwyn troseddwyr o flaen eu gwell.

Mae erlyniadau ar gyfer Troseddau Casineb yn dal i fod yn hynod isel. Fel y mae'r holwr yn nodi, mae'n gwbl briodol y gall diffyg tystiolaeth fod yn her yn y maes hwn. Hefyd, i ddioddefwyr troseddau casineb, mae 'cyfiawnder' yn edrych yn wahanol i bawb. I rai, mae gweld pwysau'r gyfraith ar waith yn llawn yn erbyn y rhai sydd wedi eu niweidio. Mae rhai eisiau i'r cam-drin ddod i ben, ac mae pobl eraill eisiau chwarae rhan wrth addysgu'r troseddwr. Mae'r cysyniad o gyfiawnder yr un mor bersonol ag effaith y drosedd sy'n seiliedig ar hunaniaeth ei hun. Yr hyn sy'n bwysig ydy bod dioddefwyr yn cael eu hysbysu'n llawn mewn modd amserol. Maen nhw'n gallu cael gafael ar gymorth cyfrinachol ac annibynnol i'w helpu i roi eu bywydau yn ôl at ei gilydd fel bod ganddyn nhw'r siawns orau o oresgyn yr hyn sydd wedi digwydd iddyn nhw – boed hynny er mwyn gweld cyfiawnder cyfreithiol a/neu ddarparu cymorth arall.

**A oes rhaid i drosedd sylweddol ddigwydd cyn cynnal ymchwiliad am droseddau casineb?**

Ethos Heddlu Gogledd Cymru ydy ymchwilio bob adroddiad i ni. Mewn rhai achosion, gallwn nodi'n gynnar a ydy adroddiad yn Drosedd Casineb neu'n Ddigwyddiad Casineb. Mae'r ymchwiliad i'r ddau senario yr un fath. 'Da ni'n ystyried y bygythiad, y risg a'r niwed, ynghyd â chyfleoedd tystiolaeth ac yn ceisio cymryd camau cadarnhaol lle bo hynny'n bosibl. 'Da ni hefyd yn cydweithio â dioddefwyr er mwyn datblygu materion yn unol â sut yr hoffent iddynt fod fel datrysiadau cymunedol ac ati.

Mae trosedd casineb yn droseddau fel ymosodiadau neu ddifrod troseddol sy'n cael eu hysgogi gan ragfarn neu elyniaeth (yr elfen casineb). Byddai digwyddiadau casineb yn adroddiadau nad ydynt yn golygu trosedd fel Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

**Cwestiwn tebyg i'r uchod, ond a oes rhaid i drosedd sylweddol ddigwydd cyn i ddigwyddiad gael ei gofnodi fel trosedd casineb?**

Oes, mae'n rhaid i drosedd ddigwydd ar gyfer yr elfen "trosedd. Fodd bynnag, mae achlysuron lle gallai digwyddiad casineb arwain at drosedd casineb fel cyfres o ddigwyddiadau casineb ddangos aflonyddu, sy'n drosedd.

**A ydy Swyddogion Heddlu Ysgol yn mynd i ysgolion yn siarad hefo plant am y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol? Y deddfau ar hyn?**

Yndan. Mae gynno ni wasanaethau boreol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, ac mae gennym wers ar gyfer disgyblion Blwyddyn 3/4 a Blwyddyn 8 ar Ddiogelwch y Rhyngrwyd.

**Onid ydy 'isddiwylliant amgen' yn cael ei gwarchod bellach?**

Nid yw erioed wedi cael ei diogelu o dan ddeddfwriaeth troseddau casineb (dim ond hil, crefydd, anabledd, traws, a chyfeiriadedd rhywiol), ond mae 'isddiwylliant amgen' yn cael ei holrhain gan rai heddluoedd. Gallan nhw hefyd gael mynediad at HOLL wasanaethau Cymorth Dioddefwyr, yn ogystal â mathau eraill o gasineb y tu allan i'r 5 grŵp gwarchodedig.

**Tybed pa mor dda y gall yr athro ysgol cyffredin reoli'r mathau hyn o gymhlethdodau.**

'Da ni'n dod ar draws llawer o athrawon ac ysgolion sy'n ymdrechu hunan-addysgu, ond mae rhai sy'n cael trafferth ac angen help/cyfeiriad. Mae'n bwysicach nag erioed sicrhau bod y wybodaeth gywir ar gael, yn y ffordd gywir ac ar yr adeg iawn ac yn gyson rhwng gwasanaethau. Mae sefydliadau fel Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn gwneud gwaith anhygoel, fel y mae swyddogion School Beat.

Mae Cymorth Dioddefwyr hefyd yn gallu cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth troseddau casineb i staff ysgol, athrawon a phlant hŷn. Mae cymorth hefyd er mwyn ymuno â'r Siarter Troseddau Casineb a gweithio tuag at y Trustmark, os ydy hwn yn faes y mae'r ysgol am ei ddatblygu.

**A oes unrhyw un o'r mathau hyn o brosiectau yn digwydd yng ngogledd orllewin Cymru? Cydlyniad Cymunedol**

Gwnaed cais dros 70 o brosiectau eleni gan y Gronfa Gydlyniad - ac ar ôl llunio rhestr fer a sgorio, fe wnaeth tua 9 prosiect dderbyn cymorth. Er hynny, roedd cyfran o'r prosiectau hynny yn helpu taclo troseddau casineb - soniwyd am brosiectau eraill yn y ddau gyflwyniad gan Emily a minnau. Cysylltwch os 'da chi angen unrhyw fanylion pellach – tonyjones@ynysmon.llyw.cymru.

# Manylion Cyswllt

**Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd**

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Pencadlys Heddlu Gogledd Cymru, Glan y Don, Bae Colwyn, Conwy LL29 8AW

**Gwefan -** Trosedd Casineb | Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (northwales-pcc.gov.uk)

**E-bost -** OPCC@northwales.police.uk

**Becca Rosenthal, Canolfan Cymorth Casineb – Cymorth Dioddefwyr**

**Gwefan -** www.reporthate.victimsupport.org.uk

**E-bost -** becca.rosenthal@victimsupport.org.uk

**Heddlu Gogledd Cymru**

**Gwefan -** Troseddau casineb | Heddlu Gogledd Cymru


**E-bost -** diversityliaison@northwales.police.uk
**E-bost -** Greg.george@northwales.police.uk

**Emily Reddy – Cydlynydd Cydlyniad Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru**

**E-bost -** Emily.Reddy@wrexham.gov.uk

**Tony Jones – Cydlynydd Cydlyniad Cymunedol Gogledd Orllewin Cymru**

**E-bost -** TonyJones@ynysmon.llyw.cymru



# Deall Troseddau Casineb a Bregusrwydd yng Ngogledd Cymru

**Crynodeb am Ddigwyddiad Ar-lein rhwng 3.30pm a 5.30pm**
Dydd Llun 16 Hydref gyda:

**DIGWYDDIAD AR-LEIN** Crynodeb

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

**HEDDLU** GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES **POLICE**

VS VICTIM SUPPORT

CYDLYNIANT CYMUNEDOL GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU
COMMUNITY COHESION NORTH EAST WALES

CYDLYNIANT CYMUNEDOL / *COMMUNITY COHESION*
Gogledd Orllewin Cymru *North-West Wales*

89142.